Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 47 – 12 GORFFENNAF 2010

Tawelu fydd pethau yma dros yr wythnosau nesaf felly hwn fydd yr e-fwletin olaf tan fis Medi, ac mae'n nodi'r digwyddiadau sy'n cymryd lle yma o nawr tan hynny.

CYNGERDD GYDA PHARTI MERCHED Y GAIMAN PATAGONIA
7.30, Nos Sadwrn, 17 Gorffennaf
Cyngerdd gyda Pharti Merched y Gaiman Patagonia a'r unawdwyr Billy Hughes a Marcelo Griffiths. Arweinydd: Edith MacDonald. Cyfeilydd: Hector MacDonald. Llywydd y noson fydd Dr Meredydd Evans. Mynediad £5 wrth y drws – plant am ddim. Noddir y noson gan *Pobl Mewn Partneriaeth Aberystwyth – Esquel* a bydd elw'r noson yn mynd tuag at gostau taith y côr yng Nghymru.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 22 Gorffennaf
10.00-4.00, dydd Iau, 5 Awst
10.00-4.00, dydd Iau, 26 Awst
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 28 Gorffennaf
Cyfarfod misol (dydd Mercher ola' bob mis) i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

THE REMNANTS OF ONCE FINE GIRLS
7.30, nos Fawrth, 3 Awst
Louche Theatre, sy'n seiliedig yn Aberystwyth, yn cyflwyno'r ddrama hon gan Stephen Todd sy'n adrodd stori Sarah – bydwraig gyda'r elusen Médecins Sans Frontières yn Darfur – a'r effaith a gaiff marwolaeth drychinebus arni. Perfformiwyd y ddrama gyntaf yn Aberystwyth ym Mai 2009 ac, ar ôl y perfformiad hwn yn y Morlan, bydd Louche Theatre yn mynd â hi i Wŷl Caeredin. Tocynnau: £5 (ar gael wrth y drws neu trwy ffonio 01970-612617).

CYFLWYNIAD I FWDHAETH NICHIREN DAISHONIN
7.30-9.00, nos Fercher, 4 Awst
Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn y Morlan ar ail nos Fercher bob mis fel arfer – **heblaw am fis yma**. Mae'r cyfarfodydd yn gyflwyniad i gysyniadau ac arferion Bwdhaeth Nichiren Daishonin ac, yn ogystal â chael cyflwyniad anffurfiol i'r pwnc, ceir cyfle i glywed a rhoi cynnig ar lafarganu, gofyn cwestiynau a dysgu mwy. Mae'r cyfarfodydd yn anffurfiol, yn gyfeillgar ac yn rhad ac am ddim – croeso i bawb. Manylion pellach: Martine (07773-589113) neu Caroline (01570-470255).

BORE COFFI
10.00-1.00, bore Sadwrn, 7 Awst
Bore coffi misol a drefnir gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar Sadwrn cyntaf bob mis. Cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen! Croeso i bawb.

ARDDANGOSFA CENADAETHAU A STONDIN LLYFRAU
Prynhawniau Mawrth-Gwener, 11-14 Awst
Rhan o Gynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr